OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 538 (Cy.75)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*5 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*6 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 46(2) a (3) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd erbyn hyn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

Enw, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003 ac maent yn dod i rym ar 6 Mawrth 2003.

(2) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Ni fydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn cysylltiad ag ariannu ysgolion a gynhelir yn yr un flwyddyn ariannol sydd yn dechrau cyn 1 Ebrill 2003.

Diwygio'r Rheoliadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999(**3**) fel y canlyn.

(2) Ym mharagraff 40A(1) o Atodlen 2(**4**)), yn lle "and 1st April 2002" rhowch ", 1st April 2002 and 1st April 2003".

(**1**) 1998 p.31. *Gweler* adran 142(1) am ddiffiniadau "prescribed" a "regulations". Mae adran 46 o Ddeddf 1998 Act yn cael ei ddiddymu yn rhagolygol gan Rhan 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1999/101 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/911 (Cy.40), O.S. 2001/495 (Cy.22) ac O.S. 2002/136 (Cy.19). Yr oedd y rheoliadau 1999 hynny yn wreiddiol yn gymwys i Gymru a Lloegr ond cawsant eu dirymu mewn cysylltiad â Lloegr gan O.S. 2000/478.
(**4**) Mewnosodwyd paragraff 40A gan O.S. 2000/911 (Cy.40).